*Prifysgol y Plant Ar-lein:*

## Sut i swp-ychwanegu stampiau

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd plant yn ychwanegu eu stampiau gweithgareddau eu hunain at *Prifysgol y Plant Ar-lein* trwy fewngofnodi i'w dangosfyrddau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion bydd yn ofynnol i gydlynwyr ysgol ychwanegu stamp gweithgaredd at garfan o blant.

Bydd y canllaw hwn yn dangos i chi sut i ychwanegu stamp gweithgaredd at hyd at 50 o blant.

**Yr hyn y bydd ei angen arnoch**


- Eich manylion mewngofnodi Prifysgol y Plant Ar-lein
- Y cod stamp gweithgaredd yr hoffech ei ychwanegu at gyfrifon y plant
- Y rhestr o blant y dyfarnwyd y stamp iddynt

**Cam 1**

- Ewch i www.childrensuniversity.co.uk a chwiliwch am y gair *Login* ar y dde uchaf.  Dewiswch fewngofnodi fel aelod o staff a rhowch eich manylion. Eich cyfeiriad e-bost fydd eich enw defnyddiwr a byddwch wedi gosod eich cyfrinair wrth ddilyn yr awgrymiadau yn yr e-bost croeso a anfonwyd gan eich rheolwr Prifysgol y Plant. Os nad oes gennych fanylion mewngofnodi, gallwch gysylltu â'ch rheolwr a bydd yn anfon yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i sefydlu eich cyfrif. Os ydych wedi anghofio eich cyfrinair, cliciwch *Forgotten Password* a dilynwch y cyfarwyddiadau.

**Cam 2**


- Ar eich dangosfwrdd cliciwch ar All o dan *School Children*




**Cam 3**

- Gan ddefnyddio'r cyfleuster *Search and Filters* i nodi'r cyfrifon yr hoffech ychwanegu'r stamp atynt, gallwch chwilio yn ôl ysgol, grŵp blwyddyn a chyfrif unigol

- Os ydych yn ychwanegu stamp at garfan fawr gallwch newid y wedd i 50 cyfrif fesul tudalen, bydd hyn yn eich galluogi i ychwanegu stamp at hyd at 50 o gyfrifon ar yr un pryd





**Cam 4**

- Ticiwch y blwch wrth ymyl y cyfrifon yr hoffech ychwanegu'r stamp iddynt, bydd hyn yn gwneud y botwm *Edit Selected* yn fyw





**Cam 5**

- Unwaith y byddwch wedi clicio ar *Edit Selected,* defnyddiwch y gwymplen a dewiswch *Add Stamp*




**Cam 6**

- Gofynnir i chi deipio cod stamp y gweithgaredd rydych yn ei ychwanegu at gyfrifon y plant, unwaith y byddwch wedi gwneud hyn gallwch glicio *Check a* bydd hyn yn dangos y gweithgaredd sy’n gysylltiedig â’r stamp, os yw'r gweithgaredd yn cyfateb i'r gweithgaredd gallwch wedyn glicio *Confirm*




**Cam 7**

- Yna fe welwch gadarnhad bod y stamp wedi'i ychwanegu at y cyfrifon a ddewiswyd



**Problemau cyffredin**

- I ddod o hyd i god stamp eich gweithgaredd bydd angen i chi ddewis *All* o dan y tab *Activities* ar eich dangosfwrdd a defnyddiwch y cyfleuster *Search and Filters* i ddod o hyd i'ch gweithgaredd. Yna gallwch glicio *View* a bydd hyn yn dangos y cod stamp i chi.

**Mae'n ddrwg gennyf, dydw i ddim yn deall o hyd!**

- Cysylltwch â'r Swyddog Cynhwysiant Digidol Cordelia Howard [Cordelia.howard@childrensuniversity.co.uk](mailto:Cordelia.howard@childrensuniversity.co.uk)